

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Meinir H. Jones (Groes) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai dyddiau, a hefyd Amy Evans (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Maelor yn dilyn llawdriniaeth. Cyflwynwn y ddwy i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Cofiw'n hefyd am Tudur Jones (Cefn Meiriadog) sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar, a hefyd Harri Roberts (Llanefydd) sydd wedi cael anffawd i'w fraich. Gobeithiwn fod y naill fel y llall yn gwella, a diolchwn i Dduw amdanynt.
- Llongyfarchiadau i Kate Davies (Llansannan) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig ddydd Gwener!

Apêl Guatemala

Mae Trysorydd yr Henaduriaeth yn gofyn yn garedig am i'r eglwysi anfon yr arian iddo yn y dyddiau nesaf, os gwelwch yn dda.

Ymweliad Gweithwyr y Gwasanaeth Plant ac Ieuentid

Mae Gwasanaeth Plant ac Ieuentid Eglwys Bresbyteriaid Cymru am gynorthwyo eglwysi ar lawr gwlad ac wedi trefnu nosweithiau arbennig i gyfarfod â Gweinidogion, Blaenoriaid, Athrawon Ysgolion Sul a phwy bynnag sydd â diddordeb mewn gwaith plant ac ieuentid. Byddant yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd ar Dachwedd 29ain a hynny yng Nghapel Seion, Dinbych o 7.00 tan 9.00.

Banc Bwyd - Yn eisiau!

Ar Ragfyr 1af a'r 2il, bydd casgliadau yn digwydd yn Tesco Abergele, Rhuthun a Chyffordd Llandudno. Bydd Tesco wedi gosod popeth yn barod ond mae angen 3 neu 4 o wirfoddolwyr am 2 awr ar y tro ar y dydd Sadwrn (ar yr amseroedd canlynol:-9.00-11.00; 11.00-1.00; 1.00-3.00; a 3.00-5.00) i roi taflen i'r cwsmeriaid fel y maen nhw'n cyrraedd sydd â rhestr o'r bwydydd ar un ochr o'r daflen a hanes y Banc Bwyd ar yr ochr arall. Os gallwch helpu, a wnewch chi gysylltu â Haf Tan y Graig (01745 582215) erbyn nos Lun, os gwelwch yn dda?

Hefyd os oes rhai â diddordeb, mae angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo o wythnos i wythnos yn y Banc Bwyd yn Ninbych. Wnewch chi sôn wrth Haf os gallwch helpu, os gwelwch yn dda.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Tachwedd 2012

Mae angen gwirfoddolwyr
i helpu'r Banc Bwyd.
Mwy o fanylion ar gefn y daflen.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Mae 'na eiriau newydd wedi cyrraedd ein tŷ ni. Geiriau newydd sbon. Enwau ar gymeriadau lliwgar sy'n byw "In the Night Garden" ar y BBC. Efallai eich bod chithau'n dod i 'nabod y 'Tombliboos', Upsy Daisy, Makka Pakka a'r cerbyd crand – y Ninky Nonk! Clyfar iawn 'di'r rhaglenni plant 'ma. Mae sŵn a lliw, ystum ac enwau mor gyfareddol. Gallaf weld yr hosan 'Dolig yn llawn yn barod!

Mae enwau yn hwyl ond mae enwau hefyd yn gallu bod yn bethau peryglus iawn! Ffordd hawdd o bardduo cymeriad rhywun ydi rhoi label sarhaus arno neu arni. Dros y canrifoedd cafodd Cristnogion eu galw yn bob peth dan haul er mwyn ceisio dilorni eu ffydd a'u cred yn yr Arglwydd Iesu. Ac y mae'r un peth yn digwydd o hyd.

Yn fy mhrofiad i rwyf wedi cael fy ngalw'n ffwndamentalydd, yn efengylwr, yn un o 'griw Duw', a phethau gwaeth! Hawdd ydi rhoi label sarhaus ar rhywun arall ond a dweud y gwir, dwi'n reit falch o gael y labeli yma.

Os mai ystyr bod yn ffwndamentalydd ydi fy mod i'n credu'r Beibl, yna mae hynny'n iawn gen i – buaswn yn hoffi petawn yn credu mwy arno! Ac os ydi bod yn efengylwr yn golygu mod i'n poeni am eneidiau tragwyddol pob un, a'm bod yn credu mai dim ond wrth iddynt gredu yng Nghrist y mae pobl yn cael bywyd tragwyddol gan mai 'gallu Duw ar waith er iachawdwriaeth i bawb sy'n credu' ydi'r efengyl, yna dwi'n gyfforddus iawn derbyn y label yma hefyd. Fy ngofid i ydi na fuaswn yn ymdrechu'n galetach o blaid yr Efengyl ogoneddus yma! (Rhufeiniaid 1:16)

Ac os cefais fy hun yn rhan o 'griw Duw' yna trwy ras Duw yn unig y mae hynny – roeddwn innau yn farw mewn pechodau ac yn gorwedd dan ddigofaint Duw. Felly, os ydi bod yn rhan o'r 'criw' yn gyfystyr â chael fy mywhau gyda Christ, derbyn ei faddeuant a chael fy ngwneud yn rhan o deulu Duw, o Eglwys Crist, yna gallaf ddiolch i Dduw am y label yma hefyd! (Effesiaid 2)

Ond o'r holl labeli, dim ond un sy'n cyfri go iawn. Cael fy nghyhuddo o fod yn Gristion. Dyna beth fyddai anrhydedd!

Ydach chi'n falch o enw Crist? Ydi enw Crist yn eli ac yn drysor i'ch enaid? Beth fyddech chi'n ei feddwl o gael eich galw'n Gristion?

Efallai eich bod yn credu nad ydych yn ddigon da i gael eich galw'n Gristion, neu nad oes gennych ddigon o ffydd. Ond Duw sy'n gwybod. Duw sy'n galw. Duw sy'n rhoi sicrwydd. Y fraint fwyaf a gaiff unrhyw un ydi fod Duw yn eu galw'n Gristion – Duw yn rhoi enw Crist arnynt ac yn gwneud Iesu yn Arglwydd iddynt! Beth a ddywed eich calon am yr enw sydd gan Dduw arnoch? Beth a ddywed yr Ysbryd wrth eich ysbryd chi wrth i chi ddarllen Gair Duw? Gweddiwn am gael adnabod Crist ac wrth i ni blygu i enw Iesu, gadewch i'n tafodau gyffesu Iesu yn Arglwydd heddiw. Wrth gyd-addoli, derbyniwn enw Iesu er gogoniant Duw Dad. (Philipiad 2:11)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **Christian Viewpoint** i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinnel am 7.30. "Jesus, the reason for the season" gyda Jayne Hirst fydd thema y cyfarfod. Pris: £3 yn cynnwys bwffe.
- Mawrth
Mercher
lau • **Adnabod Dawn** yn Festri Capel y Groes am 7.30.
• Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
• **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
• **Ymweliad gan Weithwyr Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid** yng Nghapel Seion, Dinbych o 7.00 – 9.00. (Mwy o fanylion ar y cefn.)
- Gwener-
Sadwrn • **Hyfforddiant Efengylu** gyda Roger Carswell yng Ngholeg y Bala. Croeso i ieuenctid 15+ ac oedolion o bob oed. I archebu lle, cysylltwch â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Dewch am baned erbyn 10.15 ac yna bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa undebol Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 2.00 ac fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Guatemala. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Mrs Enid Davies yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

I ddod

- **Cyfarfod i Flaenoriaid yr Ofalaeth** yng Nghapel Llanefydd nos Lun, Rhagfyr 3ydd am 7.30.
- **Noson Grefftau a Nwyddau Nadolig** nos Iau, Rhagfyr 6ed (sylwch ar y dyddiad newydd). Mwy o fanylion i ddilyn.
- **Hwyl yr Wyl** i blant cynradd yng Ngholeg y Bala ar Rhagfyr 8fed. Cysylltwch â'r Coleg (01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk) i archebu lle.
- **Codi'r Faner** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug dydd Sadwrn, Rhagfyr 8fed o 10 y.b. – 4 y.p. Diwrnod yw hwn ar gyfer aelodau eglwysi i'n galluogi i fod ynglŷn â gwaith Duw heddiw. Bydd pedair sesiwn: Sylfeini'r ffydd; Cwestiynau Bywyd; Arwain Addoliad; ac Adeiladu'r eglwys trwy'r Rhaglen Ddatblygu. Arweinir y sesiynau gan Euros Wyn Jones a Geraint Tudur. Croeso i bawb.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau